




County Hall
Cardiff
CF10 4UW
Tel: (029) 2233 0961
Email: SAB@Cardiff.gov.uk

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
Ebost: CDC@caerdydd.gov.uk

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Atodlen 3 Draenio Cynaliadwy

Cais Cynllun SuDS ar gyfer Cymeradwyaeth y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) - Cymru



Canllawiau ar gyfer Cymeradwyaeth Cyn Ymgeisio SuDS ar ddatblygiadau newydd gan gyfeirio at Reoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Gymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

Strwythur Cyn Ymgeisio	
Ffurflen Cyn Ymgeisio	<i>(I'w chwblhau a'i dychwelyd)</i>
Canllaw ar Gwblhau'r Ffurflen Cyn Ymgeisio – yn cynnwys gwybodaeth benodol a thystiolaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r cais.	<i>(I roi arweiniad)</i>

(Defnyddiwch yr hyperddolenni uchod i gael mynediad uniongyrchol i'r Ffurflenni a'r Canllawiau penodol)

Ffurflen Cyn Ymgeisio

Mae'r ffurflen hon yn seiliedig ar y gofynion a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at ddibenion cyflwyno gwybodaeth i'r Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) yn unol â'r ddeddfwriaeth y manylir arni ar y ffurflen hon ac eitemau perthnasol eraill o ddeddfwriaeth gynradd ac is-ddeddfwriaeth.

Nodwch, unwaith y byddwch wedi lawrlwytho'r ffurflen hon, ni fydd y SAB a Llywodraeth Cymru yn cael mynediad at ffurf y data rydych chi'n ei roi arni. Mae unrhyw ddefnydd dilynol o'r ffurflen hon yn ôl eich disgresiwn chi yn unig, gan gynnwys y dewis i'w chwblhau a'i chyflwyno i'r SAB yn unol â'r adran datganiad.

Ar ôl derbyn y ffurflen hon ac unrhyw wybodaeth ategol, cyfrifoldeb y SAB yw rhoi gwybod i chi am ei rwymedigaethau o ran prosesu eich cais. Cyfeiriwch at ei wefan i gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a masnachol sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth a diogelu data'r wybodaeth a ddarparwyd gennych.

Noder:

1. Mae'r ffurflen hon ar gyfer trafodaethau **Cyn Ymgeisio** gyda SAB YN UNIG;
2. Bydd ystyriaeth o'r cais hwn yn seiliedig ar gydymffurfiaid â [Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy i Gymru](#) a'r [Offerynnau Statudol](#);
3. Cynghorir chi i ymgysylltu'n gynnar ac yn uniongyrchol â'r ACLI a'r holl sefydliadau perthnasol eraill a allai fod â diddordeb yn eich cynnig cynllun SuDS, gan gynnwys ymgynghoreion statudol y SAB a restrir isod:
 - a. Ymgysylltu'r carthffosiaeth
 - b. Cyfoeth Naturiol Cymru;
 - c. Awdurdod Priffyrdd;
 - d. Ymddiriedolaeth Camlas ac Afonydd; a
 - e. Rhanbarthau Draenio Mewnol (CNC);
4. **I sicrhau Cyn Ymgeisio Cynllun SuDS dilys i'r SAB, RHAID i bob adran o'r ffurflen hon gael ei chwblhau; a**
5. Fe'ch anogir chi i roi ymateb cychwynol i'r cwestiynau pellach a geir yn y [Canllaw](#) ynghylch cwblhau'r ffurflen hon, ac i gyflwyno cymaint o wybodaeth dechnegol gychwynol â phosib ynghylch eich cynnig cynllun SuDS (hefyd fel y nodir yn y [Canllaw](#)); gan y bydd hyn yn cynorthwyo'r SAB gydag ystyriaethau a thrafodaethau cyn ymgeisio.

Byddwn yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych fel y gallwn ddelio â'ch cais. Gallwn hefyd brosesu neu ryddhau'r wybodaeth er mwyn cynnig dogfennau neu wasanaethau i chi sy'n ymwneud â materion amgylcheddol ac ymgynghori â'r cyhoedd, sefydliad cyhoeddus a sefydliadau eraill; darparu gwybodaeth o'r gofrestr gyhoeddus i unrhyw un sy'n gofyn amdani neu rwystro unrhyw un rhag torri'r gyfraith amgylcheddol, ymchwilio i achosion lle gallai cyfraith amgylcheddol gael ei thorri, a chymryd unrhyw gamau sydd eu hangen, ac ymateb i geisiadau am wybodaeth o dan

Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (os yw'r Ddeddf Diogelu Data yn caniatáu).

Sicrhewch fod y wybodaeth a gyflwynwch yn wir ac yn gywir ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu sensitif. Os oes angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, cysylltwch â'r SAB yn uniongyrchol.

Os caiff y ffurflen ei hargraffu, cwblhewch hi trwy ddefnyddio priflythrennau ac inc du cyn ei chyflwyno i'r SAB.

Darllenwch y [Canllaw](#) a chwblhewch y ffurflen gais hon yn ofalus. Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon yn gywir y tro cyntaf, gall y SAB ei phrosesu yn gyflymach.

Cyn cyflwyno Cais Llawn, cyngorir ymgeiswyr i wneud y cyflwyniad Cyn Ymgeisio hwn i drafod eu cynigion gyda'r SAB a sicrhau bod cynllun SuDS derbyniol yn cael ei gyflwyno yn ddiweddarach, ar y cam Cais Llawn. Noder y gall ffioedd cyn ymgeisio fod yn berthnasol.

Bydd cyflwyniadau a gynhelir i gefnogi'r cais hwn yn seiliedig ar ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion gorau'r diwydiant, gan gynnwys dogfennau y cyfeirir atynt yn y [Canllaw ar Wneud Ceisiadau SuDS ar gyfer Cymeradwyaeth y SAB](#)

Dylai'r cynigion a gyflwynir gael eu datblygu gan berson proffesiynol cymwys, sydd â phrofiad o ddraenio/ SuDS/ dylunio rheoli risg llifogydd.

Lle bo'n berthnasol, dylid cynnwys cyfeirnod cynllunio'r ACLI neu ddynodwr unigryw.

Dylai ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen hon a'i chyflwyno, ynghyd â dogfennau ategol perthnasol, i Gorff Cymeradwyo SuDS Cyngor Caerdydd, Room 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Lle bo'n berthnasol, gellir talu'r ffi Cyn Ymgeisio trwy BACS, Siec (yn daladwy i Gyngor Caerdydd, neu'n bersonol yn un o'n Canolfannau Cyswllt. Ni chaiff eich cais ei brosesu hyd nes y derbynnir ffi'r cais a'i chlirio'n llawn.

Ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen gais, cyflwynwch y ffurflen a'r dogfennau cysylltiedig i:

Yn electronig: CDC@Caerdydd.gov.uk

Ffôn: 02920872088

Drwy'r post: i Gorff Cymeradwyo SuDS Cyngor Caerdydd, Room 301, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

Os nad ydych chi'n siŵr o unrhyw beth sydd ar y ffurflen gais, cysylltwch â ni.

Cynnwys

RHAID I BOB adran o'r ffurflen hon gael ei chwblhau'n llawn oni bai y nodir fel arall

- 1. Manylion yr Ymgeisydd**
- 2. Manylion y Safle**
- 3. Cais**
- 4. Datganiad Asesiad Effaith Amgylcheddol (EiA)**
- 5. Cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)**
- 6. Asesiad Cychwynnol o Risg Llifogydd**
- 7. Rhestr Wirio Cais Cynllun SuDS**
- 8. Datganiad**

1. Manylion yr Ymgeisydd

Enw a Chyfeiriad yr Ymgeisydd

Teitl ac Enw		
Cwmni		
Ôl-ddodiad (uned/ enw/ rhif)		
Llinell Cyfeiriad 1		
Llinell Cyfeiriad 2		
Llinell Cyfeiriad 3		
Tref		
Sir		
Côd post		
Rhif ffôn	Symudol	
	Gwaith	
	Cartref	
Cyfeiriad e-bost		

Enw a Chyfeiriad yr Asiant

Teitl ac Enw		
Cwmni		
Ôl-ddodiad (uned/ enw/ rhif)		
Llinell Cyfeiriad 1		
Llinell Cyfeiriad 2		
Llinell Cyfeiriad 3		
Tref		
Sir		
Côd post		
Rhif ffôn	Symudol	
	Gwaith	
	Cartref	
Cyfeiriad e-bost		
Cyswllt dewisol	Ymgeisydd	Asiant

2. Manylion y Safle

Dylid cyflwyno disgrifiad cyffredinol o leoliad y safle a gefnogir gan gynllun sy'n nodi'r ardal adeiladu a maint y system ddraenio. Rhaid i'r cynlluniau fod ar raddfa o 1:2500. Dylai'r holl gynlluniau ddangos cyfeiriad y Gogledd.

Enw'r datblygiad arfaethedig	
-------------------------------------	--

Cyfeirnod Grid (D/G)	Dwyreiniad	Gogleddiad
Ôl-ddodiad (uned/ enw/ rhif)		
Llinell Cyfeiriad 1		
Llinell Cyfeiriad 2		
Llinell Cyfeiriad 3		
Tref		
Sir		
Côd post		

Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig	
Cyfanswm ardal y safle cais (Ha)	
A yw'r safle wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd h.y. Tir Llwyd, neu heb ei ddatblygu ar hyn o bryd h.y. Maes Glas?	
Defnydd tir presennol	
Defnydd tir arfaethedig	

3. Cais

A ofynnwyd am gyngor blaenorol gan y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) ynghylch y cais hwn?	Do <input type="checkbox"/>	Naddo <input type="checkbox"/>
Os felly, cwblhewch y wybodaeth ganlynol am y cyngor a gawsoch. Bydd hyn yn helpu'r SAB i ddelio â'r cais hwn yn fwy effeithlon.		

Enw'r Swyddog					
Rhif Cyfeirnod		Dyddiad	DD	MM	BBBB
Manylion y cyngor cyn ymgeisio a dderbyniwyd					

A yw'r cais hwn yn berthnasol i unrhyw gais SAB arall a wnaed eisoes?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
Os felly, rhowch rif cyfeirnod y SAB		

A yw'r cais hwn yn rhan o ddull graddol o ddatblygu'r safle, neu un o geisiadau lluosog ar gyfer yr un safle?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
Os felly, rhowch fanylion cryno		

4. Datganiad Asesiad Effaith Amgylcheddol (EiA)

A yw'r cais hwn yn ymwneud â datblygiad sy'n destun i gais EiA o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017(1)?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
---	----------------------------------	--------------------------------------

5. Cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)

RHAID i'r holl systemau draenio cynaliadwy gydymffurfio â [Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\) Cymru](#). Fe'ch cynghorir i gyfeirio at y testun manwl yn y Safonau sy'n ymwneud â'r wybodaeth sy'n ofynnol isod. Ail-gynhyrchir y Safonau yn y [Canllaw](#) i gynorthwyo wrth lenwi'r ffurflen gais hon.

Egwyddorion Safonol

Bydd yr Egwyddorion a restrir isod yn ategu dyluniad cynlluniau rheoli dŵr wyneb i fodloni'r Safonau Cenedlaethol Statudol. Lle bo modd, rhowch grynodedb byr ym mhob un o'r blychau isod sy'n ymwneud â phob un o'r Egwyddorion Safonol â bwled a Safonau 1 i 6 eitemedig, gan ddangos sut mae'ch cynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn.

Cydymffurfio â'r Egwyddorion Safonol

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

- 1.
- 2.
3. Ayb.

Safonau 1 i 6

Cydymffurfio â Safon S1 - Cyrchfan dŵr ffo wyneb

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirwedd, blaenoriaethau cyrchfan, dyluniad draenio manwl ayb.)
- 2.
3. Ayb.

Cydymffurfio â Safon S2 - Rheolaeth hydrolog dŵr ffo wyneb

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) and [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirwedd, Aseiad Canlyniadau Llifogydd, dyluniad draenio manwl, cyfrifiadau hydrolog, rheoli llif ayb.)
- 2.
3. Ayb.

Cydymffurfio â Safon S3 – Ansawdd dŵr

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

1. (e.e. Strategaeth ansawdd dŵr, triniaeth, arolwg tir halogedig, atal llygredd ayb.)
- 2.
3. Ayb.

Cydymffurfio â Safon S4 – Amwynder

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

1. (e.e. Cynllun amwynder, Cynllun Tirwedd, diogelwch, gwella, swyddogaethau lluosog ayb.)
- 2.
3. Ayb.

Cydymffurfio â Safon S5 – Bioamrywiaeth

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.

1. (e.e. Cynllun Bioamrywiaeth, Cynllun Tirwedd, cynefin, diogelwch, gwella, swyddogaethau lluosog ayb.)
- 2.
3. Ayb.

Cydymffurfio â Safon S6 – Dylunio draenio ar gyfer Adeiladu a Chynnal a Chadw ac Uniondeb Strwythurol

Bydd fy nghynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio yn y ffordd/ffyrdd canlynol:

Lle bo modd, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb), fel y dangosir yn Nhabl A a Thabl B y Canllaw hwn a chyflwyno'r holl ddeunyddiau perthnasol.
<ol style="list-style-type: none"> 1. (e.e. Strategaeth Ddraenio, Cynllun Tirwedd, dyluniad draenio manwl Cynllun Rheoli Adeiladu, Cynllun Cyflwyno Graddol, Cynllun Cynnal SuDS ayb.) 2. 3. Ayb.

6. Asesiad Cychwynnol o Risg Llifogydd

A yw'r safle mewn ardal sydd mewn risg o lifogydd? Cyfeiriwch at fapiau Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru. (Cyfoeth Naturiol Cymru / Datblygiad mewn Ardal mewn risg o lifogydd)	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
Os yw'r datblygiad arfaethedig yn yr ardal sydd mewn risg o lifogydd, bydd angen i chi ystyried a yw'n briodol cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd. (Cyfeiriwch at Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15)).		

A yw'r safle mewn ardal sy'n agored i lifogydd dŵr wyneb? Cyfeiriwch at Fapiau Llifogydd Dŵr Wyneb CNC .	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
A yw'r safle mewn ardal sy'n agored i lifogydd dŵr daear?	Ydyw <input type="checkbox"/>	Nac ydyw <input type="checkbox"/>
A oes cwrs dŵr (fel y'i diffinnir o dan Adran 72 Deddf Draenio Tir 1991) wedi'i leoli o fewn 20m o'r datblygiad arfaethedig?	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>

7. Cais Cynllun SuDS – Rhestr Wirio

Cwblhewch y rhestr wirio ganlynol a gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y [Canllaw ar Wneud Ceisiadau SuDS ar gyfer Cymeradwyaeth y SAB](#), y [Canllaw ar gwblhau'r Ffurflen Cyn Ymgeisio](#), ac wedi darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i gefnogi'ch cais :

Ffi Cyn Ymgeisio (Ile bo angen)	Ie <input type="checkbox"/>
Wedi cwblhau, llofnodi a dyddio'r Ffurflen Cyn Ymgeisio?	Do <input type="checkbox"/>
Wedi ystyried cwestiynau pellach a gwybodaeth dechnegol yn y Canllaw, sy'n ofynnol i helpu i asesu eich cyflwyniad Cyn Ymgeisio a chynorthwyo'ch cynigion Cais Llawn yn ddiweddarach .	Do <input type="checkbox"/>

9. Datganiad

Rydw i/rydym ni yn gwneud cais drwy hyn am Gymeradwyaeth Cyn Ymgeisio SuDS fel y disgrifir yn y ffurflen hon, a'r cynlluniau/lluniadau a'r wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm. Rwy'n cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth, bod unrhyw ffeithiau a nodir yn wir ac yn gywir a bod unrhyw farn a roddir yn farn ddilys y personau sy'n ei rhoi.

Cwblheir y ffurflen hon gan ddefnyddio gwybodaeth gywir a gellir ei defnyddio fel crynodeb o gysyniad y strategaeth draenio dŵr wyneb ar y wefan hon.

Cwblhawyd y ffurflen gan	
Llofnod	
Cymhwyster y person sy'n gyfrifol am lofnodi'r cais hwn	
Cwmni	
Ar ran (manylion y Cleient)	
Dyddiad	

Ymwadiad

Gellir cyhoeddi'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen hon ac mewn dogfennau ategol ar gofrestr a gwefan SuDS y SABs a chael ei darparu i'r cyhoedd.

Canllaw ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Cyn Ymgeisio

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys:

- [Sylwadau cyffredinol](#)
- [Mwy o Gwestiynau Cyn Ymgeisio](#)
- [Cwestiynau i'w hateb i ddangos cydymffurfiaeth â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\);](#)
- [Tabl A - Gwybodaeth a thystiolaeth;](#) a
- [Tabl B – Cynlluniau a lluniadau.](#)

Sylwadau cyffredinol

Rhaid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth trwy ddefnyddio'r **Ffurflen Cyn Ymgeisio** a ddarperir gan y SAB. **MAE DEFNYDD O'R FFURFLEN HON YN ORFODOL** gan ei bod wedi'i datblygu i sicrhau bod eich cais yn ystyried yn briodol y gofynion statudol.

Mae'r ffurflen hon ar gyfer cymeradwyaeth SAB YN UNIG, ac fe'ch cynghorir hefyd i ymgysylltu'n gynnar ac yn uniongyrchol â'r ACLI a'r holl sefydliadau perthnasol eraill a allai fod â diddordeb yn eich cynnig cynllun SuDS, gan gynnwys ymgynghoreion statudol y SAB a restrir isod:

- Ymgymwrwr carthffosiaeth;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Awdurdod Priffyrdd;
- Ymddiriedolaeth Camlas ac Afonydd; a
- Rhanbarthau Draenio Mewnol (CNC)

Fe'ch cynghorir i gychwyn **trafodaethau Cynllunio Cyn Ymgeisio** gyda'r ACLI cyn gynted â phosibl a chynnal trafodaethau gyda'r SAB a'r ACLI ar yr un pryd.

Ni ddylai datblygiad ar y safle ddechrau tan y ceir Caniatâd Cynllunio ffurfiol A Chymeradwyaeth Lawn SAB.

Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu swyddogion SAB a swyddogion cynllunio am gynnydd a phenderfyniadau mewn perthynas â'r cais cynllunio a'r cais SAB, gan eu bod yn geisiadau ar wahân, gyda gofynion, amserlenni a chyrff cymeradwyo gwahanol.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gynnal **trafodaethau cyn ymgeisio** gyda'r SAB ar ddechrau eich dyluniad cysyniad SuDS. Gall **trafodaethau cyn ymgeisio** effeithiol ac **Uwchgynllunio** sicrhau strategaeth rheoli dŵr wyneb cadarn, cost-effeithiol a hyfyw a dyluniad cynllun SuDS. Gall y SAB eich helpu i benderfynu ar yr ateb SuDS gorau posibl ar gyfer eich safle trwy roi arwydd cynnar o'r hyn a allai neu na fydd yn cydymffurfio â'r **Safonau SuDS Cenedlaethol**.

Rhowch gymaint o wybodaeth dechnegol â phosibl i'r SAB er mwyn galluogi rhoi ymateb ystyriol a rhesymegol ar y **Cam Cyn Ymgeisio a Chais Llawn**. h.y. y mwyaf o wybodaeth a ddarperir ar y **cam Cyn Ymgeisio**, y mwyaf manwl fydd y cyngor technegol y gellir ei roi.

Dylid integreiddio'r asesiad draenio dŵr wyneb safle-benodol a gofynion SuDS gyda'r **Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA)**, a dylid darparu **Adroddiad Draenio Llifogydd a Dŵr Wyneb** integredig i'r ACLI a'r SAB.

Cyfeiriwch at ddogfennau cenedlaethol a lleol allweddol cyn ac yn ystod y dyluniad cysyniad, dyluniad manwl, cymeradwyaeth SAB ac ACLI, adeiladu, mabwysiadu, gweithredu a chynnal cynllun SuDS. Ceir rhestr o'r dogfennau hyn, a dolenni i'r rhain, yn y [Canllaw ar Wneud Ceisiadau SuDS ar gyfer Cymeradwyaeth y SAB](#).

Gan dalu sylw penodol i'r cyflwyniad **Cyn Ymgeisio**:

- Mae'n bosibl y bydd y SAB yn codi **ffi Cyn Ymgeisio**;
- Er mwyn sicrhau **Cais Dilys**, RHAID ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen, a dylai cymaint o wybodaeth gefnogol gychwynnol ag y bo modd gael ei darparu fel y nodir yn y Canllaw ar gwblhau'r Ffurflen Cyn Ymgeisio;
- Dylai eich ymateb i gwestiynau adlewyrchu gofynion penodol y Safonau Cenedlaethol Statudol;
- Unwaith y bydd eich ffurflen gais ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol wedi'i chyflwyno'n gywir i'r SAB, bydd yn cael ei **dilysu**;
- Nodwch, os na chafodd y cwestiynau eu hateb fel y nodwyd ar y ffurflen, ac yn unol â'r gofynion uchod, efallai y bydd eich cais yn cael ei **wrthod**;
- Fodd bynnag; os tybir ei fod yn **gais dilys**, bydd eich cyflwyniad yn cael ei asesu'n dechnegol, a bydd swyddog SAB yn cysylltu â chi i gychwyn **trafodaethau cyn ymgeisio**;
- Nid oes amserlen statudol yn gysylltiedig â'r **broses cyn ymgeisio**. Mae hyn yn galluogi treulio amser priodol yn trafod, datblygu a chytuno gyda swyddogion SAB ar gynigion dylunio cynllun SuDS (o'r cysyniad cynnar i'r dyluniad terfynol), ynghyd â materion cysylltiedig eraill; y cyfan cyn i chi gyflwyno eich Cais Llawn;
- Er mwyn galluogi **trafodaethau cyn ymgeisio** cynhyrchiol, mae'n bwysig eich bod yn darparu cymaint o wybodaeth dechnegol gychwynnol mor fuan â phosibl yn y broses ddatblygu. Bydd hyn yn cynorthwyo cychwyn trafodaethau "datblygiad-benodol" ar: nodweddion y safle a'r datblygiad, is-ddalgylchoedd dŵr wyneb a llwybrau llif, a dylunio cysyniad cyffredinol ayb.;
- Dylid cyfeirio'n gynnar at y dogfennau statudol a restrir yn y canllaw hwn, ac ystyried yn ofalus hyfywedd y safle i dderbyn cynllun SuDS priodol, cyn cyflwyno eich ffurflen **Cyn Ymgeisio**; a
- Dylid cynnal pob trafodaeth dechnegol ac anhechnegol gyda'r SAB fel rhan o'r cam **Cyn Ymgeisio**, oherwydd dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y SAB yn cysylltu â chi yn ystod ei asesiad o'r Cais Cynllun SuDS.

- Ceir rhagor o gwestiynau **cyn ymgeisio** yn y canllaw hwn i nodi lle bydd yr ymatebion cychwynnol yn cynorthwyo eich trafodaethau technegol gyda'r SAB; a
- Mae angen y wybodaeth a geir yn [Nhabl A](#) a [Tabl B](#) y canllaw hwn ar gyfer y Cais Llawn. Fodd bynnag, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl yn ystod y cam Cyn Ymgeisio hwn i gynorthwyo'ch trafodaethau technegol gyda'r SAB, cyn cyflwyno'r Cais Llawn yn nes ymlaen.

Darparwch un copi caled ac un copi electronig a'u hanfon at CDC@Caerdydd.gov.uk, Cyfeiriwch at y penodau perthnasol yn [Llawlyfr SuDS C753 Ciria](#), a chyfeiriadau eraill a nodir.

Cwestiynau Cyn Ymgeisio Pellach i'w hystyried ar gam cynnar

1. Hierarchaeth Rhyddhau Dŵr Ffo Wyneb Cychwynnol

Rhaid i drefniadau draenio dŵr wyneb ddangos bod y draeniad dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â Safonau SuDS Cenedlaethol. Dylai'r rhan fwyaf o'r dŵr ffo ag y bo modd gael ei ollwng i bob elfen hierarchaeth cyn ystyried elfen hierarchaeth is. Mae angen ystyried dulliau casglu a threiddiad draenio yn y lle cyntaf. Gan gyfeirio at y lefelau hierarchaeth isod, nodwch eich trefniadau draenio cychwynnol i alluogi trafodaeth gyda'r SAB. Argymhellir eich bod hefyd yn cynnal trafodaethau â pherchnogion tir ac asedau ar y cam cynharaf posibl.

1. Casglu i'w ddefnyddio

2. Treiddiad

3. I gwrs dŵr

- a) A yw'n Gwrs Dŵr cyffredin?
- b) A yw'n Brif Afon?

4. I garthffos dŵr wyneb

- a) A yw'r ddraen priffordd?
- b) A yw'n garthffos gyhoeddus?
- c) A yw'n garthffos breifat?
- d) Arall

2. Asesiad Treiddiad Cychwynnol

Lle cynigir draenio treiddiad, dylid cynnal profion yn unol â methodoleg a gytunir gyda'r SAB e.e. [Draenio Treiddiad - Llawlyfr Arfer Da \(CIRIA R156\)](#) a [Dyluniad Ffos Gerrig BRE \(DG 365 – 2016\)](#), a'i ddefnyddio i hysbysu dyluniad, adeiladu, cynnal a chadw, profi ac asesu systemau treiddiad. Lle bo modd, dylid darparu atebion cychwynnol i'r cwestiynau isod, ynghyd ag unrhyw arolygon, adroddiadau a deunyddiau ategol eraill.

A gynhaliwyd profion treiddiad?

A fu dadansoddiad o Ddaeareg y ddatblygiad?

Beth yw'r dyfnder i'r lefel dŵr daear uchaf (metrau) a gofnodwyd?

A gynhaliwyd profion twll turio?

A gynhaliwyd Asesiad Tir Halogedig?

A yw'r draeniad treiddiad yn cael ei gynnig ar dir halogedig?

Beth yw canlyniad y prawf treiddiad ($X 10^{-?}$)?

3. Ardal Anhydraidd Fras

Darparwch yr ardaloedd anhydraidd presennol a rhai a gynigir ar y safle. Bydd angen dangos yr ardal anhydraidd bresennol trwy arolwg topograffig wrth gyflwyno'r Cais Llawn.

4. Cyfrifiad Cychwynnol o Gyfraddau Gollwng Brig

Dylid cyfrifo cyfraddau dŵr ffo yn unol â'r fethodoleg a gytunwyd gan gyda'r SAB e.e. [Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd](#), [Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd wedi'i Adfywhau \(ReFEH\)](#) neu [Adroddiad 124 IoH](#). Lle bo'n bosibl, dylid darparu'r cyfraddau gollyngiad brig presennol ac arfaethedig mewn litrau/eiliad/ hectar ar gyfer tebygolrwydd digwyddiadau isod, ynghyd ag unrhyw gyfrifiadau, adroddiadau a deunydd cefnogol arall.

Cymedr Cyfradd Dŵr Ffo Brig Blynyddol neu Debygolrwydd Gormodiant Blynyddol (AEP)

1 mewn 1 neu 0.01%

1 mewn 30 neu 3.33%

1 mewn 100 neu % 1%

5. Cyfrifiad Cychwynnol o Storio Tymor Hir

Mae angen Storio Tymor Hir i ddelio â'r cyfaint ychwanegol o ddŵr a gynhrychir o ganlyniad i greu arwynebau anhydraidd. Lle bo hynny'n bosibl, dylid darparu'r **cyfaint storio tymor hir** (m^3) cychwynnol presennol ac arfaethedig ar gyfer digwyddiad glawiad **1 mewn 100/1% (6 awr)**, ynghyd â'r **cyfaint storio tymor hir a fynegir fel dyfnder ar draws arwynebedd y safle cyfan (mm)**. Dylid darparu unrhyw gyfrifiadau cychwynnol, adroddiadau a deunydd ategol arall hefyd.

6. Cyfrifiad Cychwynnol o Storio Gwanhad

Mae'r storfa gwanhad er mwyn galluogi cyfyngu ar y gyfradd dŵr ffo o'r safle i'r cwrs dŵr derbyn i gyfradd dderbyniol, fel y gellir amddiffyn yn erbyn erydiad a llifogydd i lawr yr afon.

Lle nad ymdrinnir â'r cyfaint ychwanegol a gynhrychir gan ddatblygiad, cyfyngir y llif brig ar adeg digwyddiadau glawiad o 1/100% i'r Cymedr Cyfradd Dŵr Ffo Brig Blynyddol. Lle bo'n bosibl, dylid darparu'r **cyfaint storio gwanhad (m^3), a'i fynegi fel dyfnder ar draws arwynebedd y safle cyfan (mm)**, ynghyd ag unrhyw gyfrifiadau cychwynnol, adroddiadau a deunydd ategol arall.

7. Ansawdd Dŵr

Dylid trin dŵr ffo wyneb trwy drên rheoli SuDS i atal effeithiau negyddol ar ansawdd y dŵr derbyn a/neu amddiffyn systemau draenio i lawr yr afon, gan gynnwys carthffosydd. Dylid darparu gwybodaeth gychwynnol ar ddulliau trin ansawdd dŵr trwy **drên rheoli SuDS** lle bo modd, a chael ei ategu gan unrhyw gyfrifiadau, adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

8. Bioamrywiaeth

Dylid mwyafu'r manteision posibl i fioamrywiaeth fel rhan o'r datblygiad. Dylai'r dyluniad SuDS sicrhau, lle bo'n bosib, bod coridorau gwyrdd a glas ecolegol-gyfoethog yn cael eu darparu trwy gysylltu cynefinoedd naturiol ac ecosystemau ar hyd a lled y safle. Dylid darparu gwybodaeth gychwynnol ar ymgorffori **coridorau gwyrdd a glas yn y dyluniad cysyniad SuDS i wella bioamrywiaeth** lle bo'n bosib, a dylid ei ategu gan unrhyw adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

9. Amwynder

Lle bo'n bosib, dylai SuDS wella darpariaeth o fannau cyhoeddus o safon da a all helpu i ddarparu buddion iechyd a llesiant. Dylid darparu gwybodaeth gychwynnol ar ymgorffori **mwynderau gwell, gan gynnwys mannau cyhoeddus, yn y cysyniad SuDS** lle bo'n bosibl a dylid ei ategu gan unrhyw adroddiadau a deunydd arall sydd ar gael.

10. Bond Nad Yw'n Perfformio, Mabwysiadu, Gweithredu a Chynnal a Chadw

Mae'n bwysig rhoi ystyriaeth ar y cam cysyniad dylunio SuDS i gost amcangyfrifedig gwaith adeiladu SuDS, trefniadau mabwysiadu SuDS a chyfrifoldebau cynnal a chadw SuDS, gweithgareddau ac amllder, dros oes y datblygiad. Dylid darparu unrhyw syniadau, cyfrifiadau a gwybodaeth arall am y pynciau hyn lle bo modd.

Cwestiynau i'w Hateb i Ddangos Cydymffurfio â Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)

Lle bo'n bosib i **bob un o'r Safonau**, dylid rhestru eitemau perthnasol o wybodaeth ategol (e.e. tystiolaeth, dogfennau technegol, cynlluniau a lluniadau ayb.), fel y dangosir yn [Nhabl A](#) a [Thabl B](#) y Canllaw hwn, ar y ffurflen gais a'r holl ddeunydd perthnasol a gyflwynir.

Egwyddorion Safonol

Mae'r Egwyddorion a restrir isod yn sail i ddyluniad cynlluniau rheoli dŵr wyneb i gwrdd â [Safonau Cenedlaethol Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy \(SuDS\) Cymru](#). Lle bo'n bosib, rhowch grynodeb byr yn ymwneud â phob Egwyddor, gan ddangos sut mae eich cynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig yn cydymffurfio â'r gofyniad statudol hwn.

Cydymffurfio ag Egwyddorion Safonol

Gweler isod gofynion y cynllun SuDS:

1. Sut ydych chi'n bwriadu rheoli dŵr wyneb neu'n agos at yr wyneb ac mor agos â ffynhonnell y dŵr ffo â phosibl?
(gweler **Safon S1** a **Safon S2**)
2. Sut ydych chi'n bwriadu trin glawiad fel adnodd naturiol gwerthfawr?
(gweler **Safon S1** a **Safon S2**)
3. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod llygredd yn cael ei atal yn y ffynhonnell, yn hytrach na dibynnu ar y system ddraenio i'w drin neu ei gipio?
(gweler **Safon S3**)
4. Sut ydych chi'n bwriadu rheoli glawiad i helpu amddiffyn pobl rhag mwy o risg llifogydd, a'r amgylchedd rhag difrod morffolegol ac ecolegol cysylltiedig sy'n deillio o newidiadau mewn cyfraddau llif, patrymau a symudiad gwaddod a achosir gan y datblygiad?
5. Sut ydych chi'n bwriadu cymryd i ystyriaeth y pwysau tebygol yn y dyfodol ar risg llifogydd, yr amgylchedd ac adnoddau dŵr megis newid yn yr hinsawdd ac ymgripiad trefol?
6. Sut ydych chi'n bwriadu defnyddio Trên Rheoli SuDS, gan ddefnyddio cydrannau draenio mewn cyfres ar draws safle i sicrhau system reoli dŵr

<p>wyneb gadarn (yn hytrach na defnyddio un nodwedd "pen y bibell", fel pwll, i wasanaethu'r datblygiad cyfan)? (gweler Safon S1, Safon S2 a Safon S3)</p>
<p>7. Sut ydych chi'n bwriadu mwyafu cyflenwi buddiannau i amwynder a bioamrywiaeth? (gweler Safon S4 a Safon S5)</p>
<p>8. Sut ydych chi'n bwriadu gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael trwy ddefnydd amlswyddogaethol o fannau cyhoeddus a thir y cyhoedd?</p>
<p>9. Sut ydych chi'n bwriadu i gynllun SuDS berfformio'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithiol dros fywyd dylunio'r datblygiad gan gymryd i ystyriaeth yr angen am lefelau cynnal a chadw rhesymol? (gweler Safon S6)</p>
<p>10. Sut ydych chi'n bwriadu osgoi'r angen i bwmpio lle mae'n bosib?</p>
<p>11. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod y cynllun yn fforddiadwy, gan ystyried costau adeiladu a chynnal a chadw tymor hir a'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol ychwanegol a roddir gan y system?</p>
<p>12. Dylid cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun cynnal a chadw a'r modd o gyllido'r cynllun ar gyfer ei oes ddyluniad.</p>

Safon S1 - Cyrchfan dŵr ffo wyneb

Mae gofynion Safon S2 a restrir isod yn ymdrin â'r defnydd o ddŵr wyneb gan y datblygiad a lle y dylid ei ollwng. Y nod yw sicrhau bod y dŵr ffo yn cael ei drin fel adnodd a'i reoli mewn modd sy'n lleihau effaith negyddol y datblygiad ar risg llifogydd, morffoleg ac ansawdd dŵr y dyfroedd derbyn a'r ecoleg gysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth gynnar i'r defnydd o systemau cynaeafu dŵr glaw i reoli dŵr ffo a chyflenwi ffynhonnell o ddŵr nad yw'n yfadwy i'r safle lle mae'n ymarferol. Lle nad ydyw, dylid rhoi blaenoriaeth i dreiddiad. Dylai gollyngiadau i systemau carthffosiaeth fod yn gyfyngedig lle bo modd.

Dylid gollwng gymaint â phosib o'r dŵr ffo (yn amodol ar gyfyngiadau technegol neu gostau) i bob cyrchfan cyn ystyried cyrchfan (lefel) blaenoriaeth is.

Gan ddibynnu ar nodweddion y safle, gallai draenio o wahanol rannau o'r safle gael cyrchfannau draenio gwahanol.

Gan ddibynnu ar faint y dŵr ffo a'r potensial i'r gyrchfan arbennig honno reoli'r dŵr ffo, gall digwyddiadau bach gael eu gollwng i lefel uwch tra bydd angen i ddigwyddiadau mwy wneud defnydd o gyrchfannau blaenoriaeth is.

Cydymffurfio â Safon S1 - Cyrchfan dŵr ffo wyneb

Lefel Blaenoriaeth 1 yw'r dewis (blaenoriaeth uchaf) a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio 4 a 5.

Dylid nodi gyrchfannau dŵr ffo y cynllun draenio arfaethedig, a'r rhesymau dros gynnig y rhain, fel y dangosir isod. Os na ellir cyflawni/cyrraedd cyrchfan dŵr ffo Lefel Blaenoriaeth 1 neu Lefel Blaenoriaeth 2, dylid darparu'r rhesymau dros hyn hefyd.

Lefel Blaenoriaeth 1: Cesglir dŵr ffo wyneb i'w ddefnyddio.

Lefel Blaenoriaeth 2: Caiff dŵr ffo ei dreiddio i'r ddaear.

Sylwer: Os na threiddir unrhyw ddŵr ffo i'r ddaear, ac y cynigir lefel blaenoriaeth is o gyrchfan dŵr ffo wyneb, **RHAID** dangos "Meini Prawf Eithrio " a darparu tystiolaeth.

Lefel Blaenoriaeth 3: Gollyngir dŵr ffo wyneb i gorff dŵr wyneb.

Lefel Blaenoriaeth 4: Gollyngir dŵr ffo wyneb i garthffos dŵr wyneb, draen priffordd neu system ddraenio arall.

Lefel Blaenoriaeth 5: Gollyngir dŵr ffo wyneb i garthffos gyfun.

Noder: Mae rhagdybiaeth gref yn erbyn gollwng i garthffos gyfun.

Safon S2 - Rheolaeth hydrolog dŵr ffo wyneb

Nod Safon S2 a restrir isod yw rheoli'r dŵr ffo wyneb o'r safle ac ar y safle, i amddiffyn pobl ar y safle rhag llifogydd o'r system ddraenio ar gyfer digwyddiadau hyd at gyfnod dychwelyd addas. Hefyd, i liniaru unrhyw risg cynyddol o lifogydd i bobl ac eiddo i lawr yr afon o'r safle o ganlyniad i'r datblygiad, ac i amddiffyn y corff dŵr derbyn rhag niwed morffolegol.

Cydymffurfio â Safon S2 - Rheolaeth hydrolog dŵr ffo wyneb

Dylai'r system SuDS gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylid rheoli dŵr wyneb i atal, cyn belled ag y bo modd, unrhyw ollyngiad o'r safle yn ystod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau glaw o lai na 5mm.

2. Dylid rheoli'r gyfradd dŵr ffo wyneb ar gyfer digwyddiad cyfnod dychwelyd 1 mewn 1 flwyddyn (neu gyfnod cyfatebol cytunedig) i helpu i liniaru effeithiau negyddol dŵr ffo y datblygiad ar forffoleg ac ecoleg gysylltiedig y cyrff dŵr wyneb derbyn.
3. Dylid rheoli'r dŵr ffo dŵr wyneb (cyfradd a chyfaint) ar gyfer digwyddiad cyfnod dychwelyd 1% (1 mewn 100 mlynedd) (neu gyfnod cyfatebol cytunedig) i helpu i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad ar risg llifogydd yn y corff dŵr derbyn.
4. Dylid rheoli'r dŵr ffo wyneb ar gyfer digwyddiadau hyd at gyfnod dychwelyd 1% (1 mewn 100 mlynedd) (neu gyfnod cyfatebol cytunedig) i ddiogelu pobl ac eiddo ar y safle a gerllaw'r safle rhag dioddef llifogydd o'r system ddraenio.
5. Dylid ystyried y risgiau (ar y safle ac oddi ar y safle) sy'n gysylltiedig â'r dŵr ffo wyneb ar gyfer digwyddiadau sy'n fwy na chyfnod dychwelyd 1% (1 mewn 100 mlynedd). Lle mae'r canlyniadau'n ormodol o ran amhariad cymdeithasol, difrod neu risg i fywyd, dylid datblygu cynigion lliniaru i leihau'r effeithiau hyn.
6. Dylid edrych ar gynigion dylunio draenio ar gyfer tebygolrwydd a chanlyniadau unrhyw senarios posibl o fethiant (e.e. methiant strwythurol neu ataliad), a rheoli'r risg llifogydd cysylltiedig lle bo modd.

Safon S3 – Ansawdd Dŵr

Mae Safon S3 a ddangosir isod yn ymdrin â'r gofynion dylunio draenio er mwyn lleihau'r risg posibl o lygredd a achosir gan y dŵr ffo wyneb i'r corff dŵr derbyn.

Cydymffurfio â Safon S3 – Ansawdd Dŵr

Dylai'r system SuDS gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylid trin dŵr ffo wyneb i atal effeithiau negyddol ar yr ansawdd dŵr derbyn a/neu i amddiffyn y systemau draenio i lawr yr afon, gan gynnwys carthffosydd.

Safon S4 – Amwynder

Mae Safon S4 a ddangosir isod yn cyfeirio at ddylunio cydrannau SuDS i sicrhau, lle bo modd, eu bod yn gwella darpariaeth manau cyhoeddus deniadol o ansawdd da a all helpu i ddarparu buddion iechyd a llesiant, gwella bywioldeb i gymunedau lleol a chyfrannu at wella'r gwydnwch hinsawdd y datblygiadau newydd.

Cydymffurfio â Safon S4 – Amwynder

Dylai'r system SuDS gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai dyluniad y system rheoli dŵr wyneb gynyddu manteision amwynder.

Safon S5 – Bioamrywiaeth

Mae Safon S5 a ddangosir isod yn cyfeirio at ddyluniad SuDS i sicrhau, lle bo modd, eu bod yn creu coridorau gwyrdd a glas cyfoethog yn ecolegol mewn datblygiadau, ac yn cyfoethogi gwerth bioamrywiaeth trwy gysylltu rhwydweithiau o gynefinoedd ac ecosystemau gyda'i gilydd. Dylid ystyried bioamrywiaeth ar gam dylunio cynnar y datblygiad er mwyn sicrhau mwyafu'r buddiannau potensial.

Cydymffurfio â Safon S5 – Bioamrywiaeth

Dylai'r system SuDS gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai dyluniad y system rheoli dŵr wyneb gynyddu manteision bioamrywiaeth.

Safon S6 – Dylunio Draenio ar gyfer Adeiladu a Chynnal a Chadw ac Uniondeb Strwythurol

Mae Safon S6 a ddangosir isod yn ymdrin â dylunio systemau draenio dŵr wyneb cadarn fel y gellir eu hadeiladu, eu cynnal a'u gweithredu'n hawdd ac yn ddiogel, gan ystyried yr angen i leihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac adnoddau naturiol.

Cydymffurfio â Safon S6 – Dylunio Draenio ar gyfer Adeiladu a Chynnal a Chadw ac Uniondeb Strwythurol

Dylai'r system SuDS gydymffurfio â'r canlynol:

1. Dylai holl elfennau'r system draenio dŵr wyneb gael eu dylunio fel y gellir eu hadeiladu'n hawdd, yn ddiogel, yn gost-effeithiol, yn amserol, gyda'r nod o leihau'r defnydd o adnoddau prin a charbon ymwreiddiedig (ynni).
2. Dylai holl elfennau'r system draenio dŵr wyneb gael eu dylunio fel y gellir sicrhau cynnal a chadw a gweithredu (gan y corff cyfrifol perthnasol) yn hawdd, yn ddiogel, yn gost-effeithiol, yn amserol, gyda'r nod o leihau'r defnydd o adnoddau prin a charbon ymwreiddiedig (ynni).
3. Dylai'r system draenio dŵr wyneb gael ei dylunio i sicrhau uniondeb strwythurol yr holl elfennau dan amodau llwytho disgwylidig dros oes ddylunio'r safle datblygu, gan gymryd i ystyriaeth yr angen i sicrhau lefelau cynnal a chadw rhesymol.

Noder:

Gellir cyhoeddi'r wybodaeth a ddarperir ar gofrestr a gwefan SuDS y SAB a'i gwneud ar gael i'r cyhoedd.

TABL A: Gwybodaeth a thystiolaeth benodol sydd eu hangen ar gyfer y Cais Llawn

Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) – (Gweler [Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a Risg Llifogydd \(TAN15\)](#))

RHESWM: Dangos y risg llifogydd presennol a'r dyfodol i'r safle ac oddi yno, a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli i sicrhau bod pobl ac eiddo yn parhau'n ddiogel am oes y datblygiad.

Bydd yr asesiad yn cynnwys:

- Gofynion TAN 15; a
- Cyfeiriadau a chysylltiadau rheolaidd at amodau cynllunio perthnasol, materion cynllunio neilltuedig, ac i'r FCA.

Adroddiad Geodechnegol Deongliadol a Ffeithiol Manwl – (Gweler hefyd yn benodol Benodau 13 & 25 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: I ddangos priodweddau ffisegol priddoedd, creigiau a nodweddion presennol ar y safle a pherthnasol oddi ar y safle, a dangos bod y dull arfaethedig o ddraenio dŵr wyneb yn briodol ar gyfer daeareg y safle; ac y bydd yn parhau i berfformio i'w feini prawf dylunio dros oes y datblygiad. Bydd yr adroddiad yn cynnwys:

- Topograffeg, daeareg a hanes y safle;
- Cyfngiadau arwyddocaol (gan gynnwys creigiau toddadwy, tirlithriadau, mwyngloddio bas, dŵr daear bas, tir wedi'i wneud, tir halogedig);
- Potensial draenio (gan gynnwys dyfnder i'r trwythiad, treiddiolrwydd dyddodion arwynebol, trwch dyddodion arwynebol, treiddiolrwydd y creigwely, presenoldeb gorlifdiroedd);
- Sefydlogrwydd tir (gan gynnwys creigiau toddadwy, tirlithriadau, mwyngloddio bas, tywod rhedegog, clai yn chwyddo, tir cywasgedig, tir cwmpadwy);
- Arolwg Daearegol Prydain BGS: Mapiau GeoSure (gan gynnwys dyddodion artiffisial, dyddodion arwynebol, creigwely);
- Lleoliadau monitro ac unrhyw wybodaeth berthnasol am byllau turio a phyllau prawf;
- Asesiad Treiddiad Manwl (gan gynnwys tystiolaeth o fathau o bridd, cyfernodau treiddiad pridd a chyfrifiadau Canran Safonol Dŵr Ffo);
- Lle mae palmentydd hydraiddd yn cael eu cynnig mewn rhai mathau o bridd, mae angen CBR gwlyb;
- Gwaith labordy;
- Lle bo modd, tystiolaeth fanwl o lefelau trwythiad dŵr daear dros gyfnod o 12 mis diweddar neu dystiolaeth ddilysedig arall; a
- Lefelau dŵr daear a lleoliad, ac effaith ar:
 - Parthau Diogelu Dŵr Wyneb
 - Parthau Diogelu Dŵr Daear,
 - Parthau Diogelwch Dŵr, a/neu
 - Parthau Risg Nitradau Dŵr Daear.

Cynigion Dylunio Draenio SuDS Safle Cyfan – (Gweler hefyd holl benodau [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: Cadarnhau bod yr ateb draenio arfaethedig yn briodol ar gyfer lleoliad, math, graddfa a natur y safle a'r datblygiad arfaethedig; ac i ddangos y bydd risg llifogydd yn cael ei leihau, er mwyn sicrhau bod pobl ac eiddo'n parhau'n ddiogel am oes y datblygiad. Bydd y cynigion yn cynnwys:

- Strategaeth Ddraenio;
- Uwchgynllun;
- Cyfeirio ac alinio i'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (LFRMS);
- Aseiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) Cymeradwy yn cynnwys:
 - hydroleg bresennol,
 - cyfrifo cyfradd dŵr ffo maes glas a thir llwyd,
 - digwyddiadau glaw cyfnod critigol,
 - canlyniadau efelychu ar gyfer RP storm, 1 mewn 1 RP, 1 mewn 2 RP, 1 mewn 30 RP ac 1:100 RP,
 - % lwfans priodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd ac ymgripiad trefol,
 - digwyddiadau llifogydd hanesyddol a lefelau dŵr daear,
 - risgiau (ar y safle ac oddi ar y safle) sy'n gysylltiedig â dŵr ffo wyneb ar gyfer digwyddiadau sy'n fwy na'r cyfnod dychwelyd 1% (1 mewn 100 mlynedd),
 - disgrifiadau o asedau a nodweddion draenio presennol,
 - risgiau llifogydd presennol a dyfodol yn cynnwys:
 - wyneb,
 - dŵr daear,
 - ffynonellau eraill,
 - gormodiant llwybrau llif llifogydd,
 - gollyngiadau,
- Ardaloedd anhydraidd a hydraidd presennol ac arfaethedig (mae angen gwelliant dŵr ffo o 30% neu fwy cyfwerth â maes glas ar ardaloedd tir llwyd sy'n bodoli eisoes);
- Modelau (fel y bo'n briodol) a chyfrifiadau hydrologig manwl;
- Dyluniad manwl SuDS gan gynnwys:
 - Rhyngdoriad yn cynnwys mecanweithiau a thargedau cydymffurfio â rhyngdoriadau haf a gaeaf (e.e. haf 80% & gaeaf 50%),
 - triniaeth,
 - trawsgludiad,
 - llif brig a rheolaeth ar gyfaint (digwyddiad glawiad 1:100ml- 6 awr ar gyfer rheolaeth cyfaint brig),
 - storio ar yr wyneb (tymor hir a gwanhau),
 - storio tanddaearol,
 - defnyddio llystyfiant a choed,
 - llwybrau a chydannau gormodiant (i ddigwyddiad glawiad 1:100ml neu fwy),
 - dangos y gellir cyflenwi'r storio a'r llif trawsgludiad angenrheidiol ar y safle lleiafswm cyfraddau llif allanfa throthl (h.y. 1-2 l/s/ha neu 5 l/s/ha pan fo risg o atalfa a dim dull amgen hyfyw arall),
 - risgiau a chanlyniadau senarios methiant dylunio,
- Storio dŵr wyneb; cyfrifiadau gan gynnwys amser i ollwng o lawn i hanner llawn;
- Cyfrifiadau treiddiad gan gynnwys:
 - ffactor diogelwch a ddatganwyd,
 - cyfradd treiddiad a ddatganwyd ar 1×10^{-5} m/s neu uwch,

- Rhagolygon a gollyngiadau (fel arfer, ystyrir 2 l/s/ha fel cyfradd briodol er mwyn peidio â chynyddu risg llifogydd i lawr yr afon);
- Manylebau ar gyfer yr holl ddeunyddiau a ddefnyddir yn y dyluniad;
- Gellir adeiladu, gweithredu a chynnal cydrannau yn rhwydd, yn ddiogel ac yn gost effeithiol;
- Mae cydrannau'n cadw uniondeb strwythurol dros oes y datblygiad;
- Dangosir cydrannau yn gwrthsefyll pob llwyth dylunio a osodir gyda ffactorau diogelwch penodol;
- Tystiolaeth i alluogi'r SAB i gyfrifo gwerth y Bond Nad Yw'n Perfformio yn cynnwys cyfraddau uned ar gyfer pob elfen SuDS;
- Mesurau lliniaru risg llifogydd sy'n gysylltiedig â draeniau, gan nodi eu lleoliad, eu math a'u nodweddion (h.y. ffyrdd a manau mynediad a ddiogelir i 1: 30bl o lawiad, mewnlion a seilwaith critigol a ddiogelir i 1: 100ml o lawiad neu fwy, bwrdd rhydd priodol);
- Defnydd lluosog o fuddion SuDS yn cynnwys ardaloedd llifogydd dros dro; a
- Perchnogaeth yn y dyfodol o asedau draenio dŵr wyneb a rhai wedi'u mabwysiadu.

Cynllun Cynnal Asedau SuDS Manwl – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 32 ac Atodiad B [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: I gadarnhau y bydd trêen rheoli SuDS a chydrannau SuDS unigol yn cael eu cynnal yn effeithiol (gan gynnwys ailosod asedau lle bo angen), i gyflawni eu meini prawf dylunio am oes y datblygiad. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Gwybodaeth am sut y bydd SuDS yn cael ei reoli a'i gynnal, a phwy fydd yn ei wneud;
- Manylion am drefniadau mynediad i gerbydau a cherddwyr yn y dyfodol;
- Gwybodaeth am yr amrywiol adnoddau dynol, offer a deunyddiau sydd eu hangen ac amserlenni bras ynghylch pryd; ac
- Yn gydnaws â'r angen i hyrwyddo bioamrywiaeth a gefnogir gan y system SuDS.

Cynllun Amwynder a Bioamrywiaeth – (Gweler hefyd yn benodol Benodau 5 & 6 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: I ddangos sut y bydd y SuDS yn diogelu ac yn gwella amwynder a bioamrywiaeth dros oes y datblygiad. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Sut y caiff gwerth amwynder ei fwyafuo gynllun SuDS ar gyfer y datblygiad ar gyfer y gymuned leol a'r gymuned ehangach;
- Amwynder sy'n darparu dŵr glân, eglurder SuDS, mynediad diogel, aml-swyddogaethau a manau deniadol, gwerth cymdeithasol ac yn addasadwy i newid;
- Bioamrywiaeth sy'n darparu dŵr glân, cysylltedd ar hyd y trêen rheoli a chreu cynefinoedd;
- Manylion am werth amwynder a bioamrywiaeth, a'r cysylltiadau rhyngddynt; a
- Chynigion i gael budd o gynefinoedd â blaenoriaeth a chynnal neu wella eraill lle bo modd.

Adroddiadau Tir Ansefydlog a Halogedig – (Gweler hefyd yn benodol Benodau 4 & 26 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#).)

RHESWM: Nodi presenoldeb, lleoliad a natur unrhyw dir ansefydlog a/neu wedi'i halogi ar, neu'n agos at, y safle; a sut yr ystyriwyd hyn yn nyluniad y cynllun SuDS, a sut y caiff ei reoli a'i gynnal dros oes y datblygiad. Bydd yr adroddiadau yn cynnwys unrhyw strategaethau adfer llygredd.

Strategaeth a Chynllun Triniaeth Ansawdd Dŵr ac Atal Llygredd – (Gweler hefyd yn benodol Benodau 4, 26 & 27 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#).)

RHESWM: I ddangos sut y bydd y cynnig SuDS yn osgoi neu'n lleihau cynhyrchiad llygryddion a sut y bydd yn atal llygryddion rhag cymysgu â dŵr ffo cyn iddynt fynd i'r system ddraenio. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Cefnogi amcanion ansawdd cyfredol neu ddyfodol y corff dŵr dros oes y datblygiad;
- Tystiolaeth o sgrinio risg llygredd a bod y gofynion rheoli ansawdd dŵr lleiafswm wedi'u hystyried a'u bodloni (gan ddefnyddio. Llawlyfr SuDS (Tabl 4.3), CIRIA 2015;
- Gwybodaeth am fath a nerth halogion a deunyddiau llygredig;
- Sut mae'r halogion potensial hyn wedi'u rheoli yn agos at y ffynhonnell ac ar yr wyneb;
- Manylion pa gydrannau SuDS sydd wedi'u darparu mewn cyfres (y trênn SuDS) i lanhau'r llif cyn y pwynt gollwng;
- Gwybodaeth am sut mae gwaddod yn cael ei ddal a'i gadw ar y safle (ar gyfer digwyddiadau glawiad sy'n fwy na'r cyfnod dychwelyd 1:1-flwyddyn);
- Manylion hygyrchedd ymgymryd â glanhau gwaddodion a gweithgareddau cynnal a chadw eraill;
- Manylion sut yr ymdriniwyd â'r effeithiau gollyngiadau damweiniol; a
- Tystiolaeth ysgrifenedig o drafodaeth a chytundeb gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.

Cynllun Tirwedd – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 29 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: I ddangos sut mae'r nodweddion tirwedd meddal arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol SuDS, a sut mae'r tirlun yn cefnogi ac yn gwella lleihad mewn risg llifogydd, gwella ansawdd dŵr, amwynderau a bioamrywiaeth. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Cynllun cyffredinol manwl, trawiad tir, plannu, nodweddion caled, meddal a dŵr;
- Manylu ar elfennau tirwedd i wella ansawdd dŵr;
- Dangos sut mae'r dyluniad yn cyflawni gwanhad, rheolaeth llif a gormodiant yn effeithiol;
- Gwelliannau i ecoleg a bioamrywiaeth;
- Ystyriaeth fanwl o weithgareddau cynnal a chadw rheolaidd a chyfnodol;
- Dealltwriaeth lawn o nodweddion y safle: llethr, graddiant, modelu tir, daeareg, mathau o briddoedd, patrymau draenio naturiol;
- Dangos y nodweddion presennol i'w cadw, eu gwella, eu tynnu a/neu eu disodli; a
- Manylion unrhyw sefydlogi/ atgyfnerthu pridd a rheoli erydiad.

Cynllun Rheoli Adeiladu – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 31 ac Atodiad B [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#) ac [Adroddiad CIRIA C768 - Canllaw ar adeiladu SuDS](#))

RHESWM: Darparu dull strwythuredig o ymdrin â gweithgareddau adeiladu a gwaith dros dro a ddefnyddir ar gyfer adeiladu SuDS, gan sicrhau bod materion allweddol y safle adeiladu fel draeniad, llifogydd, rheoli gwaddodion, atal llygredd, cywasgu ardaloedd ymledu, storio deunyddiau a chynefinoedd amwynder a naturiol presennol ayb. yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn effeithiol hyd nes y bydd y gwaith o adeiladu'r safle wedi'i gwblhau. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Manylion am natur y gwaith i'w gwblhau;
- Cynlluniau safle a lluniadau cynllun llawn, lle bo angen i gefnogi'r dull gweithredu;
- Gofynion caniatâd ac adfer;
- Mannau a manylion mynediad;
- Unrhyw faterion ecolegol sy'n benodol i'r safle, neu nodweddion sydd angen eu hamddiffyn a'u hystyried;
- Trefniadau rheoli llygredd ac unrhyw faterion ansawdd dŵr tebygol sy'n deillio o'r gwaith priffyrdd a gwaith adeiladu SuDS;
- Strategaeth arfaethedig ar gyfer rheoli gwaddodion, rheoli erydiad a draenio'r safle yn ystod y gwaith o adeiladu'r datblygiad; lle mae hyn yn effeithio ar yr SuDS arfaethedig ar gyfer y safle, dylai nodi unrhyw effeithiau posibl ar berfformiad terfynol y system ddraenio ac unrhyw fesurau amddiffyn neu waith adfer angenrheidiol; a
- Mesurau i atal mynediad anfwriadol ar draws yr SuDS sydd wedi'i gwblhau, neu ei gwblhau'n rhannol.

Cynllun Cyflwyno Adeiladu Graddol – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 31 ac Atodiad B [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#) ac [Adroddiad CIRIA C768 - Canllaw ar adeiladu SuDS](#))

RHESWM: I nodi'n glir sut y bydd y datblygiad a/neu cam(au) y datblygiad yn draenio yn ystod adeiladu a meddiannu'r datblygiad cyn ei fabwysiadu. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- Dilyniant camau'r datblygiad a sut mae'r systemau draenio (parhaol neu dros dro) yn cysylltu ag arllwysfa (dros dro neu barhaol) yn ystod adeiladu a meddiannu'r datblygiad cyn ei fabwysiadu.

Cynllun Gwybodaeth a Chyfathrebu (lle bo'n briodol) – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 34 [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: Darparu dull strwythuredig o ymgysylltu â'r gymuned leol a nodi'r camau ymgysylltu, sut y cânt eu darparu, yr adnoddau sydd ar gael i'w cyflenwi, a'r amserlen y mae angen cyflenwi'r canlyniad oddi mewn iddi. Rhaid i'r cynllun gynnwys:

- cyfathrebu â ac addysgu trigolion presennol;
- cyfathrebu â ac addysgu trigolion newydd;
- byrddau gwybodaeth cydrannau SuDS benodol a safle; a
- addysg gymunedol leol a strategaethau addysg leol (e.e. trwy ysgolion).

Ffeil Rheoliadau Adeiladu DRh (Dylunio a Rheoli) 2015 – (Gweler hefyd yn benodol Bennod 36 ac Atodiad B [Llawlyfr SuDS Ciria C753](#))

RHESWM: Sicrhau bod dyluniadau SuDS yn bodloni gofynion rheoliadol a chyfreithiol, a bod asesiadau risg iechyd a diogelwch SuDS yn unol â BS EN 31010:2010. Rhaid i'r ffeil gynnwys:

- Asesiadau risg ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal y briffordd a'r system ddraenio.

Cydsyniadau a chaniatâd statudol

RHESWM: Rhoi tystiolaeth bod yr holl gydsyniadau a chaniatâd angenrheidiol wedi'u sicrhau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Cydsyniadau a thrwyddedau gollwng i gyrsiau dŵr;
- Hawliau i osod pibellau ar dir trydydd parti / hawddfreintiau;
- Manylion hawddfrait;
- Caniatâd perchennog glannau afon i ollwng iddi;
- Deddf Diwydiant Dŵr 1991 Adran 104 (mabwysiadu) a chytundebau Adran 106 (Cysylltiad) gan Ymgwymerwr Statudol; a
- Cytundeb draenio tir a chytundebau draenio'r cwmni rheoli.

Dogfennau teitl

RHESWM: Sicrhau bod pob buddiant cyfreithiol a pherchnogaeth ayb. mewn tir ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r SuDS yn cael eu nodi, ac y gellir eu cyfleu ar gyfer trosglwyddiadau cyfreithiol, caffaeliadau a chyfrifoldebau. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Copi o Gofnodion o Deitl neu Dalfyriad o Deitl lliw cyfredol i'r tir dan sylw.

TABL B: Cynlluniau a lluniadau sy'n cynnwys y wybodaeth berthnasol ofynnol ar gyfer y Cais Llawn

Taflen cyhoeddi rhif lluniad

Hysbysiad Caniatâd Cynllunio Amlinellol neu Llawn a'r lluniad cynllun cymeradwy (ble bo'n berthnasol).

Cynllun lleoliad y safle (Graddfa 1:2500) gyda chefnogaeth ffotograffau diweddar.

Cynllun dalgyrch ac is-ddalgyrch draenio naturiol ac artiffisial (Graddfa 1:2500)

yn dangos:

- Cyfuchliniau tir;
- Topograffeg;
- Cyrsiau dŵr; ac
- Ardaloedd risg llifogydd presennol, o fewn, uwchlaw ac islaw, sy'n effeithio ar y safle.

Lluniadau cysyniadol (Graddfa 1:2500) o'r cynllun datblygu arfaethedig (a/ neu opsiynau cynllun), tystiolaeth briodol a chymesur yn dangos:

- Ymdrin â chynllun cyfuchlin llifogydd yn dangos llifoedd gormodiant;
- Maint amlinellol ardaloedd y safle a parthau defnydd tir;
- Cyfrifiadau SuDS cysyniadol a dyluniad, gan gynnwys:
 - rhyngdoriad,
 - triniaeth,
 - trawsgludiad,
 - llif brig a rheolaeth ar gyfaint,
 - storio (tymor hir a gwanhau)
 - llwybrau a chydrannau gormodiant
 - dangos y gellir cyflenwi'r storio dangosol a'r llif trawsgludiad angenrheidiol ar y safle
 - diogelwch a gwella :
 - ansawdd dŵr,
 - amwynder,
 - bioamrywiaeth,
 - tirwedd.
- Lleoliad ffyrdd, adeiladau a nodweddion draenio cynaliadwy (gan gynnwys mesurau ansawdd dŵr);
- Nodweddion posibl ar gyfer diogelu rhag risg llifogydd; a
- Syniadau cychwynnol ar gyfrifoldebau mabwysiadu a chynnal a chadw SuDS.

Lluniadau lliw cynllun peirianeg cyffredinol (Graddfa 1:500 & 1:1250) yn dangos:

- Ardaloedd o SuDS arfaethedig a gyflwynwyd ar gyfer cymeradwyaeth y SAB ac a gynigir i'w mabwysiadu – wedi eu lliwio'n wyrdd gydag amlinelliad coch solet;
- Ffiniau'r safle;
- Adeiladau presennol (ar ac o amgylch y safle);
- Safle bob llwybr, troetffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beicio, ymylon, sribedi gwasanaeth, nodweddion gostegu traffig;
- Mae angen nodi draeniad dŵr budr ac wyneb presennol, draeniad priffyrdd i'w mabwysiadu gan yr Awdurdod Priffyrdd, ac unrhyw ddraeniad priffyrdd sydd heb ei fabwysiadu, mewn gwahanol liwiau a'u labelu'n glir;
- Lle bo'n berthnasol, dylid nodi pob annedd sy'n draenio dŵr wyneb preifat i'r SuDS priffordd yn glir ar y cynllun a'i liwio'n wahanol;
- Cyrsiau dŵr;
- Wedi gorffen adeiladu llawr gwaelod lefelau;
- Tyllau caead;
- Dyfeisiau, siambrau a systemau storio / gwanhau;
- Arllwysfa/ / cefnffuriau;
- Systemau / nodweddion ategol eraill;
- Coed presennol a lleoliadau arfaethedig;
- Hawddfrentiau i fod yn liw glas;
- Safle anheddau, garejys a/neu leoedd parcio, strwythurau; a
- Cwmpadau a goleddfau croes cydrannau SuDS, troetffyrdd a ffyrdd cerbydau.

Lluniadau lliw trawsdoriad hydredol (Graddfa 1:500 Llorweddol & 1:100 Fertigol) yn dangos:

- Lefelau ffyrdd presennol ac arfaethedig ar gyfer y llinell ganol, sianelau, graddiannau a chromliniau fertigol;
- Proffiliau draenio dŵr wyneb a dŵr budr, gan gynnwys lleoliad siambrau, graddiant, diamedrau pibellau, lefelau gorchuddio a gwrthdro a diogelwch;
- Dylid nodi draeniad priffyrdd mewn lliw gwahanol;
- Deunydd pibellau;
- Cryfder pibellau;
- Dosbarthiad a manylion sylfeini; a
- Lefelau dŵr daear a chwrs dŵr.

Lluniadau trawsdoriad a lluniadau safonol manwl (Graddfa 1:100, 1:50, 1:20 & 1:10) yn dangos eitemau yn y lluniadau cynllun peirianeg cyffredinol, ar gyfnodau o ddim mwy na 30 metr.

Llun cynllun tirlunio (Graddfa 1:500)

yn dangos:

- Manylion plannu, rhywogaethau/ maint/ safleoedd coed;
- Unrhyw goed presennol sydd i'w cadw;
- Manylion pantiau coed;
- Ardaloedd caeau chwarae â glaswellt ac offer;
- Ffensio a waliau; a
- Cadarnhad o berchnogaeth tir.

Lluniadau arbenigol (Graddfa 1:1250)

yn dangos:

- Pontydd, Cwlfertau, unrhyw bibellau dros 600mm o ddiamedr, cefnuriau, waliau cadw ac unrhyw nodweddion adeiledig eraill; a
- Gwasanaethau Statudol presennol a chynlluniau cyfleustodau sy'n dangos lleoliad cyfagos y datblygiad arfaethedig.

Cynhwysir y *nodyn canlynol* ar yr holl luniadau a gyflwynir:

- 1) *“Bydd y fanyleb ym mhob agwedd yn unol â'r cyhoeddiad Manyleb ac Adeiladu cyfredol sydd mewn grym yn y Sir ar amser adeiladu.”*

Dylid nodi:

- Petai'r datblygwr yn dymuno cyflwyno ffeiliau AutoCAD, dylai atodi'r ffeiliau gosod pen perthnasol (ctb).
- Dylid plygu cynlluniau i faint A4.